**Rhif:** WG37332

Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymateb

# Rheoliadau Cymwysterau Cymru (Cosbau Ariannol) (Penderfynu Trosiant) 2019

Dyddiad cyhoeddi: Mawrth 2019

Mae'r ddogfen yma ar gael yn Gymraeg hefyd.
This document is also available in Welsh.

OGL © Hawlfraint y Goron 2019 Digital ISBN 978 1 78964 923 9

# Rheoliadau Cymwysterau Cymru (Cosbau Ariannol) (Penderfynu Trosiant) 2019

| | |
|---|---|
| **Cynulleidfa** | Cyrff dyfarnu a rhanddeiliaid eraill yn y sector addysg |
| **Trosolwg** | Crynodeb o ymatebion i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar bŵer Cymwysterau Cymru i osod cosb ariannol lle cydnabyddir nad yw cyrff dyfarnu'n cydymffurfio â gofynion rheoleiddio. |
| **Camau gofynnol** | Dim – er gwybodaeth yn unig |
| **Rhagor o wybodaeth** | Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:<br>Judith Askew<br>Is-adran y Cwricwlwm, Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ<br>E-bost: QualificationsWalesSponsorshipUnit@llyw.cymru<br><br>Ffôn: 0300 062 8627<br><br>@WG_Education<br><br>Facebook/EducationWales |
| **Copïau ychwanegol** | Gellir cyrchu'r ddogfen hon o wefan Llywodraeth Cymru yn:<br><br>https://gov.wales/?skip=1&lang=cy |
| **Dogfennau cysylltiedig** | Dogfen Ymgynghori Rheoliadau Cymwysterau Cymru (Cosbau Ariannol).<br><br>https://beta.llyw.cymru/rheoliadau-cymwysterau- |

cymru-cosbau-ariannol

# Cynnwys

**Ymgynghoriad ar Reoliadau Cymwysterau Cymru (Cosbau Ariannol) 2**
Diben yr ymgynghoriad ar Reoliadau Cymwysterau Cymru (Cosbau Ariannol) 2
Crynodeb 2
Cynnig 2
Camau nesaf 2
**Cwestiynau 4**
Cyflwyniad 4
**Atodiad: Ymatebwyr 13**

# Ymgynghoriad ar Reoliadau Cymwysterau Cymru (Cosbau Ariannol)

## Diben yr ymgynghoriad ar Reoliadau Cymwysterau Cymru (Cosbau Ariannol)

Mae'r ymgynghoriad yn nodi'r cynigion ar gyfer pŵer Cymwysterau Cymru i osod cosb ariannol lle cydnabyddir nad yw cyrff dyfarnu'n cydymffurfio â gofynion rheoleiddio.

## Crynodeb

Cynhaliwyd yr ymarfer ymgynghori rhwng 22 Hydref 2018 a 7 Ionawr 2019. Derbyniwyd un deg tri ymateb. Nod yr ymarfer ymgynghori oedd cael barn rhanddeiliaid a phartïon eraill â buddiant am reoliadau sy'n cael eu cyflwyno gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â gosod terfyn uchaf o 10% o drosiant corff dyfarnu yn y DU pe bai corff dyfarnu'n torri amodau cydnabod a Chymwysterau Cymru yn penderfynu gosod cosb ariannol.

Roedd cynnig ar gyfer pennu trosiant wedi'i gynnwys yn yr ymgynghoriad hefyd. Roedd y rhan fwyaf o ymatebion i'r ymgynghoriad hwn (61%) gan gyrff dyfarnu. Cafwyd ymatebion gan wyth corff dyfarnu. Fodd bynnag, mae Cymwysterau Cymru yn rheoleiddio 104 o gyrff dyfarnu sy'n gweithredu yng Nghymru; felly roedd hyn yn gyfradd ymateb cymharol isel. Roedd yr ymatebion yn cynnwys wyth o gyrff dyfarnu, tri o sefydliadau eraill gan gynnwys Ffederasiwn y Cyrff Dyfarnu, a dau gan unigolion.

Cytunodd pob ymatebwr bod yr egwyddor yn gywir ac y dylai Cymwysterau Cymru allu gosod cosbau ariannol fel rheoleiddiwr ac y dylid diffinio terfyn uchaf. Ymddengys bod unrhyw bryderon ynghylch y cynnig yn ymwneud â lefel y trosiant a fyddai'n pennu terfyn uchaf cosb ariannol.

## Cynnig

Nid yw ein cynnig am derfyn uchaf o 10% o drosiant corff dyfarnu yn y DU yn newydd ond yn egwyddor sydd wedi'i hen sefydlu. 10% o drosiant corff dyfarnu yn y DU oedd y terfyn uchaf pan ddechreuodd Llywodraeth Cymru reoleiddio Cymwysterau cyn sefydlu Cymwysterau Cymru yn 2015. Dyma'r terfyn uchaf presennol a ddefnyddir gan Ofqual, rheoleiddiwr Lloegr, a chyfres o reoleiddwyr eraill hefyd.

## Camau nesaf

Bydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu hystyried wrth wneud y rheoliadau. Bydd ein hymateb i'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu hamlinellu yn y memorandwm esboniadol i'r rheoliadau.

Fodd bynnag, dylid nodi mai terfyn uchaf yn unig yw'r cap arfaethedig o 10% o drosiant corff dyfarnu yn y DU ac nid yw'n arweiniad ar yr hyn sy'n lefel briodol o gosb ariannol.

Codwyd nifer o ymholiadau yn yr ymarfer ymgynghori sydd wedi'u trafod gyda Cymwysterau Cymru. Bydd Cymwysterau Cymru yn rhoi esboniad pellach yn eu polisi Cosbau Ariannol a fydd yn rhoi'r rheoliadau ar waith. Bydd Cymwysterau Cymru yn cyhoeddi eu polisi diwygiedig ar ôl i'r rheoliadau ddod i rym.

Mae cosbau ariannol yn gosbau sylweddol a fydd ond yn cael eu hystyried os yw camau eraill o atal neu liniaru effaith niweidiol ar ddysgwyr wedi bod yn annigonol. Cyhyd â bod cyrff dyfarnu'n parhau i gydymffurfio â gofynion rheoleiddio a diogelu buddiannau dysgwyr, ni ddylent ystyried eu bod mewn perygl o wynebu cosbau ariannol.

# Cwestiynau

## Cyflwyniad

| **Sector** | **Cyfanswm yr Ymatebion** |
| --- | --- |
| | |
| Cyrff Dyfarnu | 8 |
| Sefydliadau eraill | 3 |
| Unigolion | 2 |
| | |
| **Cyfanswm** | **13** |

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn cytuno y dylai Cymwysterau Cymru allu gosod cosbau ariannol ac y dylid capio'r rhain ar lefel uchaf bosibl. I gefnogi hyn, gwnaed y sylw; "rydym yn cytuno y dylai pob Rheoleiddiwr allu defnyddio cosbau ariannol fel rhan o'r gweithdrefnau rheoli ac atal risg...."

Roedd llai yn cytuno am bennu'r cap yn 10% o drosiant yn y DU. Fodd bynnag, ni chyflwynwyd unrhyw opsiynau ymarferol eraill dilys yn fanwl ac roedd y gyfradd ymateb yn isel gan gyrff dyfarnu a allai gael eu heffeithio neu beidio. Mae Cymwysterau Cymru yn rheoleiddio 104 o gyrff dyfarnu yng Nghymru a dim ond wyth a ymatebodd.

**Cwestiwn 1**

**Ydych chi'n cytuno â'r cynnig ar gyfer pennu'r gosb ariannol uchaf y gall Cymwysterau Cymru ei chyflwyno fel yr esbonnir uchod?**

| Sector | **Cyfanswm yr Ymatebion i Gwestiwn 1** |
| --- | --- |
| | |
| Cyrff Dyfarnu | 8 |
| Sefydliadau eraill | 3 |
| Unigolion | 1 |
| | |
| Cyfanswm | **12** |

**Y brif farn**

Er bod y rhan fwyaf o ymatebwyr yn cytuno gyda'r egwyddor y dylai Cymwysterau Cymru allu gosod cosb ariannol mewn achosion o beidio â chydymffurfio ac y dylid cael terfyn uchaf neu gap ar y gosb ariannol, teimlai cyrff dyfarnu yn benodol bod terfyn uchaf o 10% o'u trosiant yn y DU yn rhy uchel ac felly'n anghymesur. Fodd bynnag, nid oedd tri o'r rhai a ymatebodd (nad oedd yn gyrff dyfarnu) yn anghytuno â'r cynnig terfyn uchaf o 10% o drosiant yn y DU.

Credai'r wyth corff dyfarnu a ymatebodd bod y terfyn uchaf o 10% o'u trosiant yn y DU yn rhy uchel gan nad oedd llawer ohonynt â gweithgarwch sylweddol yng Nghymru. Gwnaed y pwynt gan bedwar corff dyfarnu bod 10% o'r trosiant yn y DU yn fwy na swm eu busnes yng Nghymru mewn ambell achos.

**Cwestiwn 1 – Sylwadau ategol**

**Os oes gennych chi unrhyw awgrymiadau eraill ar bennu terfyn y gosb ariannol uchaf y gall Cymwysterau Cymru ei chyflwyno, defnyddiwch y blwch isod a'u nodi:**

Credai nifer o gyrff dyfarnu y byddai pennu'r gosb uchaf fel 10% o'u trosiant yn y DU yn rhoi sefydliadau dyfarnu sy'n gweithredu ledled y DU mewn perygl sylweddol. Gwnaeth un corff dyfarnu sylw ei bod yn ymddangos yn 'rhy llym' ar sefydliadau sy'n dyfarnu nad ydynt yn cael y rhan fwyaf o'u hincwm rheoleiddiedig o Gymru.

Mae'r rhan fwyaf o sefydliadau dyfarnu'n credu y dylai'r gosb uchaf fod yn 'gysylltiedig â 10% o Drosiant Rheoleiddiedig Cymru, a fyddai'n cynnwys gwasanaethau cymwysterau ynghyd â'r cymwysterau eu hunain'. Dywedodd un corff dyfarnu y gallai'r rheoleiddiwr fod am ystyried cymal 'yn ogystal â chostau adfer' os mai'r bwriad yw sicrhau bod y camau atal yn ddigon uchel ar gyfer sefydliadau dyfarnu nad ydynt yn gweithredu mewn unrhyw ffordd sylweddol yng Nghymru.

Fel dadl ar gyfer cysylltu cosbau ariannol â throsiant yng Nghymru yn hytrach na'r DU, gwnaed sylw 'er gwaethaf awgrymiadau i'r gwrthwyneb mae'n gwbl bosibl i gorff Dyfarnu wahanu'r refeniw a gynhyrchir o gymwysterau a chanolfannau rheoleiddiedig Cymwysterau Cymru'.

Mae cyrff dyfarnu'n credu y dylai Llywodraeth Cymru 'geisio sefydlu cap sy'n seiliedig ar y farchnad yng Nghymru; yn union fel y mae Cymwysterau Cymru wedi sefydlu rheoliadau a pholisïau eraill ar sail anghenion Cymru'.

Dywedodd un corff dyfarnu nad yw'n cefnogi'r cap o 10% a awgrymwyd o drosiant yn y DU gan ei fod yn sefydliad academaidd mawr gyda throsiant byd-eang mawr. Mae ei gorff dyfarnu'n cynnwys uned fusnes fach o fewn sefydliad ehangach gyda throsiant is.

Credai y byddai'n fwy priodol pennu cosb ariannol yn seiliedig ar gyfran corff dyfarnu o'r farchnad neu faint ei weithrediadau yng Nghymru yn unig. Byddai hyn yn adlewyrchu cylch gwaith Cymwysterau Cymru wrth ddiogelu dysgwyr sy'n cael eu 'hasesu'n llwyr neu'n bennaf yng Nghymru'.

**Cwestiwn 2**

**Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i bennu trosiant fel yr esbonnir uchod?**

| **Sector** | **Cyfanswm yr Ymatebion i Gwestiwn 2** |
|---|---|
| | |
| Cyrff Dyfarnu | 8 |
| Sefydliadau eraill | 3 |
| Unigolion | 2 |
| | |
| **Cyfanswm** | **13** |

| **O'r un deg tri ymateb i C2 Q2** | |
|---|---|
| | |
| Cytuno gyda'r cynnig ar gyfer pennu trosiant | 3 |
| Anghytuno gyda'r cynnig ar gyfer pennu trosiant | 8 |
| Ddim yn cytuno nac yn cytuno â'r cynnig | 2 |
| | |
| **Cyfanswm** | **13** |

**Y brif farn:**

Credai'r rhan fwyaf o gyrff dyfarnu ac wyth o'r un deg tri o ymatebwyr ei bod yn annheg defnyddio eu holl drosiant blynyddol yn y DU fel ffordd o bennu cosb ariannol mewn perthynas â gweithrediadau oedd yn aml yn llawer llai yng Nghymru. Yn gyffredinol, credai'r cyrff dyfarnu ei bod yn annheg cynnwys eu gweithgareddau eraill hefyd, gan gynnwys cymwysterau heb eu rheoleiddio a deunyddiau cymorth, wrth bennu canran trosiant.

**Cwestiwn 2 – Sylwadau ategol**

**Os oes gennych chi unrhyw awgrymiadau pellach ar y ffactorau i'w hystyried wrth bennu trosiant corff dyfarnu, rhowch wybod i ni yma.**

Gwnaed nifer i bwyntiau gan ymatebwyr y gellir eu trafod dan y penawdau isod.

**Lefel busnes yng Nghymru**

Gwnaeth un corff dyfarnu'r sylw, 'Mae rhai cyrff dyfarnu'n cyflawni cyfran isel iawn o'u busnes yn y DU yng Nghymru felly mae cap o 10% o drosiant yn y DU yn anghymesur. Felly, byddem o blaid cap yn seiliedig ar 10% i drosiant corff dyfarnu yng Nghymru'.

Credai tri chorff dyfarnu y byddai'n bosibl diffinio gweithgareddau yng Nghymru yn eithaf cywir drwy, er enghraifft, ffurflenni bob chwarter i Cymwysterau Cymru neu 'swm yr holl gyfansymiau' sy'n deillio o gwsmeriaid sydd wedi'u lleoli yng Nghymru.

Nid oedd un corff dyfarnu wedi'i argyhoeddi y byddai'n 'rhy anodd dadgyfuno cyfrifon DU corff dyfarnu er mwyn gwahanu trosiant yng Nghymru'.

Credai corff dyfarnu arall bod yr egwyddor y dylid seilio trosiant ar 'swm yr holl gyfansymiau a ddaw i ddwylo corff o ddarpariaeth nwyddau a gwasanaethau sy'n rhan o weithgareddau arferol y corff' yn rhesymol cyn belled â bod gweithgareddau'n cael eu 'cyfyngu i weithgareddau yng Nghymru'.

Dywedodd corff arall bod yr ymgynghoriad yn awgrymu na ellid gweithredu cosbau ariannol ar sail trosiant yng Nghymru gan na ellir dadgyfuno cyfrifon cyrff dyfarnu i wahanu trosiant yng Nghymru. Dywedodd y corff dyfarnu y byddai'n 'croesawu gweld yr ymchwil sydd wedi'i chynnal ledled y sector cyrff dyfarnu i weld tystiolaeth o'r safbwynt hwn.'

Credai un corff dyfarnu y byddai'n fuddiol i Lywodraeth Cymru weithio gyda'r sector i geisio dod o hyd i ateb sy'n cynnig dull clir i Cymwysterau Cymru ond sydd hefyd yn darparu cap cosbau ariannol cymesur nad yw'n achosi gormod o risg i gyrff dyfarnu. Rhoddwyd enghraifft, sef 'pe bai corff dyfarnu'n gwybod y gyfran o'i incwm a gynhyrchir yng Nghymru (fel %), gallai ddefnyddio'r trosiant cyfan fel man cychwyn ac yna cymhwyso'r % sy'n gysylltiedig â chyfran yr incwm o Gymru (er enghraifft, os yw 20% o incwm o Gymru a bod trosiant y corff dyfarnu yn y DU yn £100,000 y flwyddyn, yna'r swm a fyddai'n destun dirwy gan reoleiddiwr Cymru fyddai £20,000 gyda'r ffi uchaf yn 10% o hynny, h.y. £2,000.'

Gwnaed y pwynt hefyd bod pob sefydliad dyfarnu sy'n gweithredu yng Nghymru yn 'cyflwyno ffurflenni data bob chwarter i Cymwysterau Cymru i ddarparu gwybodaeth am nifer y cofrestriadau ac ardystiadau a roddir i ganolfannau yng Nghymru'. Roeddynt yn credu y byddai hyn yn 'ffynhonnell wybodaeth ar gyfer amcangyfrif lefel y gweithgarwch a gyflawnir gan sefydliadau dyfarnu yng Nghymru.'

Roedd un o'r cyrff dyfarnu a oedd yn anghytuno â'r cynnig ar gyfer pennu trosiant yn dweud ei fod yn sefydliad byd-eang a bod 'incwm a throsiant yn y DU yn deillio o bobl y tu allan i'r DU hefyd; ond ei fod yn cael ei ddynodi fel incwm y DU. Roeddynt yn credu y byddai'r cynnig 'yn creu risg anghymesur' lle byddai swm posibl y gosb ariannol yn cael ei gymharu ag incwm a oedd yn cael ei gynhyrchu o farchnad Cymru.

**Trosiant holl sefydliad corff dyfarnu?**

Gwnaed sylw nad oedd yn glir a oedd y cynnig ar gyfer y trosiant a fyddai'n sail ar gyfer y gosb yn 'drosiant y corff dyfarnu neu'n drosiant y sefydliad cyfan y gallai'r corff dyfarnu fod yn rhan ohono'.

Gwnaed y pwynt y gallai'r corff dyfarnu fod yn rhan o elusen, gyda'r gweithgarwch dyfarnu'n cynrychioli canran fach iawn o'r gweithgarwch cyffredinol a'r trosiant. Byddai'n anodd i sefydliad fel hyn ysgwyddo dirwy o 10% o drosiant yn y DU ac mae'n debygol o fod yn ormod o risg'.

Mae'r ymgynghoriad yn cynnig bod trosiant yn cael ei bennu yn unol â blynyddoedd ariannol cyfan ac roedd sawl sefydliad yn credu bod hyn yn rhesymol. Y cynnig yw lle nad yw corff dyfarnu wedi gweithredu am flwyddyn ariannol lawn hyd yma, y byddai Cymwysterau Cymru yn amcangyfrif trosiant y flwyddyn lawn at ddiben cyfrifo'r gosb ariannol.

Gofynnodd un corff dyfarnu 'pa fodel rhagweld a fyddai'n cael ei ddefnyddio i amcangyfrif trosiant y flwyddyn lawn a pha hawl fyddai gan gorff dyfarnu i herio/apelio'r rhagolwg gan y rheoleiddiwr?'

**Busnes cymwysterau rheoleiddiedig yn unig?**

Pwysleisiodd un corff dyfarnu y dylai'r ffactorau ar gyfer pennu trosiant fod yn fusnes 'cymwysterau rheoleiddiedig' yn unig a'i gyfyngu i fusnes a gyflawnir yng Nghymru dan awdurdod Rheoleiddiwr Cymru. Byddai trosiant o'r fath yn cynnwys refeniw sy'n deillio o wasanaethau ategol sy'n gysylltiedig â'r cymwysterau ac y gellid diffinio'r casgliad o wasanaethau drwy gytundeb ar y cyd.

'Nid yw'r term 'pob gweithgaredd perthnasol arferol' yn benodol ac mae angen ei egluro'. Nodwyd bod 'yn rhaid darparu rhestr o weithgareddau a ystyrir yn berthnasol' o leiaf.

Sylw pellach oedd y gellid diffinio 'pob gweithgaredd perthnasol arferol' yn fanylach ac 'ymddengys fod hyn yn awgrymu y bydd gweithgarwch nad yw'n cael ei reoleiddio yn cael ei ystyried hefyd.'

Roedd nifer o'r wyth sefydliad dyfarnu a ymatebodd yn credu y dylai'r gosb ariannol uchaf fod yn '10% o drosiant a reoleiddir yng Nghymru'. Fel dadl dros gysylltu cosbau ariannol â throsiant yng Nghymru yn hytrach na'r DU; gwnaed sylw 'er gwaethaf awgrymiadau i'r gwrthwyneb mae'n gwbl bosibl i gorff Dyfarnu wahanu'r refeniw a gynhyrchir o gymwysterau a chanolfannau rheoleiddiedig Cymwysterau Cymru'.

**Cwestiwn 3**

**Hoffem gael eich barn ar unrhyw effeithiau tebygol y gallai capio'r gosb ariannol uchaf y gall Cymwysterau Cymru ei chyflwyno ar 10 y cant o drosiant corff dyfarnu ei chael ar gorff dyfarnu ac ar gymwysterau yng Nghymru'n fwy cyffredinol.**

| Sector | Cyfanswm yr Ymatebion i Gwestiwn 3 |
|---|---|
| | |
| Cyrff Dyfarnu | 8 |
| Sefydliadau eraill | 2 |
| Unigolion | 2 |
| | |
| **Cyfanswm** | **12** |

**Y brif farn:**

Roedd y rhan fwyaf o'r 8 corff dyfarnu a ymatebodd yn credu y gallai'r cynnig achosi risg i rai o'r cyrff dyfarnu, yn enwedig y rhai sy'n dyfarnu ychydig o gymwysterau yng Nghymru yn unig ac sydd ag ôl-troed mwy sylweddol yn Lloegr. Gallai fygwth y cyrff dyfarnu hynny sy'n gweithredu fel rhan o riant-gwmni mwy, gyda'r rhan fwyaf o weithgarwch y sefydliad yn weithgarwch heblaw dyfarnu.

**Cwestiwn 3 – Sylwadau ategol:**

Mynegodd pump o'r wyth corff dyfarnu a ymatebodd i'r cwestiwn hwn bryder am effeithiau rhywbeth yn digwydd a fyddai'n effeithio ar gymwysterau yng Nghymru a Lloegr, a fyddai'n golygu cyfranogiad Ofqual a Cymwysterau Cymru. Roeddynt yn bryderus pe bai'r ddau reoleiddiwr yn gosod cosbau ariannol (a allai fod hyd at 10% o'r trosiant), y gallai sefydliad wynebu dirwy o hyd at 20% o'i drosiant.

Dywedodd pump o'r wyth corff dyfarnu a ymatebodd y gallai gosod cap o 10% o drosiant yn y DU ar gosbau ariannol 'arwain at gynnydd yn nifer y cyrff dyfarnu a allai ildio eu cydnabyddiaeth yng Nghymru a gweithredu yng ngwledydd eraill y DU yn unig'. Credai un ohonynt fod y 'risg o ildio yn debygol o fod yn uwch ymysg cyrff dyfarnu llai, sector benodol nad ydynt yn gwneud llawer o waith yng Nghymru'.

Gwnaeth un corff dyfarnu'r pwynt y gallai'r terfyn uchaf arfaethedig arwain at fylchau mewn darpariaeth cymwysterau rheoleiddiedig ledled Cymru os bydd cyrff dyfarnu gadael y farchnad oherwydd bod y risg o aros yn rhy ddifrifol. Yna, gallai dysgwyr fod mewn sefyllfa lle nad ydynt yn gallu manteisio ar y detholiad cynhwysfawr o gymwysterau rheoleiddiedig sydd ar gael ar hyn o bryd.

**Sut gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol neu liniaru effeithiau negyddol?**

Dywedodd un corff dyfarnu ei bod yn anodd nodi 'effeithiau cadarnhaol y cap 10% arfaethedig ar drosiant yn y DU fel terfyn uchaf'. Dywedodd y byddai cosb ariannol ar y sail hon yn anghymesur i'r busnes sy'n cael ei wneud yng Nghymru.

Dywedodd corff dyfarnu arall y gallai'r cynnig achosi risg sylweddol gan fod y rhan fwyaf o'r trosiant blynyddol yn cael ei gynhyrchu gan ei swyddogaeth corff dyfarnu fel y dangosir yn ei ddata cofrestru ac ardystio bob chwarter a ddarperir yn rheolaidd i Ofqual a Cymwysterau Cymru. Pe bai'r cynigion yn cael eu cyflwyno, gallai'r corff dyfarnu ystyried ildio ei gydnabyddiaeth yng Nghymru.

**Cwestiwn 4**

**Eglurwch hefyd beth fyddai effaith, os o gwbl, y Rheoliadau Cymwysterau Cymru (Cosbau Ariannol) arfaethedig ar y Gymraeg, fel sy'n ofynnol gan Safonau'r Gymraeg?**

| **Sector** | **Cyfanswm yr Ymatebion i Gwestiwn 4** |
|---|---|
| | |
| Cyrff Dyfarnu | 7 |
| Sefydliadau eraill | 3 |
| Unigolion | 1 |
| | |
| **Cyfanswm** | **11** |

**Y brif farn**

Y brif farn oedd nad oedd y cynigion a amlinellir yn cynnig unrhyw gymhelliannau penodol i gyrff dyfarnu gynnig cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg. Fodd bynnag, credai un ymatebwr y byddai'r rheoliadau cosbau ariannol arfaethedig yn cynorthwyo Cymwysterau Cymru i sicrhau bod cymwysterau ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg a dylai hynny gael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg.

**Cwestiwn 4 – Sylwadau ategol**

Credai pedwar o'r cyrff dyfarnu a ymatebodd y gallai fod perygl pe bai cyrff dyfarnu'n gadael y farchnad, na fyddai'r ddarpariaeth sydd ar gael ar hyn o bryd i ddysgwyr yn y Gymraeg ar gael wedi hynny.

Dywedodd pedwar corff dyfarnu pe bai corff dyfarnu'n teimlo bod unrhyw risg o wallau wrth gyfieithu deunyddiau neu asesiadau, er enghraifft, i'r Gymraeg, arwain at gosb ariannol a

byddai hynny'n debygol o effeithio ar eu parodrwydd i ehangu darpariaeth Gymraeg ar draws nifer cynyddol o gymwysterau.

Dywedodd un corff dyfarnu mawr bod 'Asesu cymwysterau yn y Gymraeg yn cyflwyno nifer o heriau ar gyfer y rhan fwyaf i gyrff dyfarnu. Mae'r anawsterau wrth recriwtio arbenigwyr pwnc sy'n siarad Cymraeg, a'r angen wedi hynny i ddibynnu ar wasanaethau cyfieithu, yn cynyddu'r tebygolrwydd y bydd gwallau yn y broses asesu os cynigir asesu yn y Gymraeg.' Roeddynt o'r farn 'y gallai gwallau yn y broses asesu fod yn fath o ddigwyddiad y byddai Cymwysterau Cymru yn ei ystyried yn briodol ar gyfer rhoi cosb ariannol' ac y gallai hyn 'atal cyrff dyfarnu rhag cynnal neu gynyddu eu darpariaeth o asesiadau yn y Gymraeg.'

O'r wyth corff dyfarnu a ymatebodd i'r ymarfer ymgynghori, roedd yr wyth yn gweithredu o Gymru a mannau eraill yn y DU.

**Cwestiwn 5**

**Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi faterion perthnasol nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y blwch isod i roi gwybod i ni amdanynt.**

| **Sector** | **Cyfanswm yr Ymatebion i Gwestiwn 5** |
|---|---|
| | |
| Cyrff Dyfarnu | 5 |
| Sefydliadau eraill | 2 |
| Unigolion | 2 |
| | |
| **Cyfanswm** | **9** |

**Sylwadau ategol:**

Pwysleisiodd dau gorff dyfarnu bod cyrff dyfarnu yn 'deall y byddai unrhyw gosbau ariannol yn cael eu talu i Gronfa Gyfunol Cymru'. Dywedodd y ddau y byddent yn 'gwerthfawrogi pe bai rhywfaint o ystyriaeth yn cael ei rhoi i neilltuo derbyniadau unrhyw gosbau ariannol i gronfa a ddefnyddir i gefnogi'r sector addysg technegol a galwedigaethol.'

Crybwyllodd nifer o gyrff dyfarnu 'ddiffyg eglurder' ynghylch yr hyn a fyddai'n cael ei ystyried yn 'ymddygiad anghydweithredol' gan gorff dyfarnu. Cyfeirir at y ffactor hwn yn nogfen bolisi Cymwysterau Cymru ar gosbau ariannol a bydd yn cael ei egluro ganddynt yn eu hymateb i'w hymarfer ymgynghori ar ôl ei gyhoeddi.

**Costau adfer**

Pwysleisiodd corff dyfarnu arall bod Cymwysterau Cymru 'yn ymarfer ymgynghori Cymwysterau Cymru y llynedd, wedi cynnig bod 17 ffactor yn cael eu hystyried wrth bennu

swm y gosb ariannol. Er ei fod yn credu bod pob un o'r 17 ffactor yn bwysig, credai bod y canlynol yn arbennig o berthnasol i'r ymgynghoriad presennol:

- Difrifoldeb y tramgwydd, o ystyried yr effaith ar ddysgwyr a/neu ar y system cymwysterau yng Nghymru;
- Maint busnes y corff dyfarnu yng Nghymru;
- Oes unrhyw sancsiynau ariannol wedi'u gosod mewn perthynas â'r un tramgwydd gan gorff rheoleiddio arall (fel Ofqual).

Credai'r corff dyfarnu ei bod yn bwysig bod y ffactorau hyn yn cael eu cwblhau a'u mabwysiadu. Dywedodd bod yn rhaid i'r ffactorau fod yn rhan o'r broses benderfynu ffurfiol ynghylch maint unrhyw gosb ariannol ac, o bosibl, hysbysu unrhyw sail dros apelio. Mae'r sylwadau hyn wedi'u trosglwyddo i Cymwysterau Cymru sy'n eu hystyried.

Mynegodd pump o'r wyth corff dyfarnu a ymatebodd bryder am botensial cosbau ariannol o 10% a fyddai'n cael eu gosod gan Ofqual a Cymwysterau Cymru.

Gwnaed y pwynt bod 'angen ystyried effaith cosb ariannol o fewn y pwerau rheoleiddio cyffredinol sy'n caniatáu hefyd ar gyfer adennill costau gweithgarwch ymchwilio. Felly, mae'n bosibl, o dan y cynigion hyn, y gallai corff dyfarnu wynebu cosb ariannol sy'n 10% o'i drosiant yn y DU, yn ogystal â gorfod talu costau i Cymwysterau Cymru hefyd.'

Gallai darnio fod yn broblem bosibl, 'ni all Adrannau ac Asiantaethau'r Llywodraeth barhau â'r polisi darnio heb gydnabod goblygiadau ehangach dull o'r fath ar y system.'

# Atodiad: Ymatebwyr

### Cyrff Dyfarnu

Chartered Institute of Procurement and Supply, CIPS, (Chantal Rogers)
AQA, (Helen Pownall)
Pearson Education, (Chris Harvey)
Corff dyfarnu dienw
Corff dyfarnu dienw
OCR, (Paul Steer)
Prifysgol y Celfyddydau, Llundain, UAL, (Peter Herman)
Cymdeithas y Cyfrifwyr Ardystiedig Siartredig, ACCA, (Martin Paull)

### Sefydliadau

Ffederasiwn y Cyrff Dyfarnu, FAB, (Ailin O'Cathain)
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, (Sharon Cooke)
Coleg Cymraeg, (D Trystan)

### Unigolion

Tony Sawyer
Unigolyn dienw